TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CIPD Diploma Cyswllt mewn Rheoli Pobl Lefel 5



**Yn gryno**

Dyma lwyfan perffaith i ddysgwyr ar gyfer datblygu mwy ar eu gyrfa AD ar lefel reoli, gan eu helpu i feithrin eu gallu i werthuso pa mor effeithiol yw gwahanol fodelau ac arferion AD a gwella'u dealltwriaeth o ffactorau allanol sy'n effeithio ar AD a sefydliadau.

Mae Tystysgrifau Canolradd CIPD yn cynnig cymhwyster a gydnabyddir yn broffesiynol ynghyd â'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer aelodaeth Gyswllt broffesiynol CIPD.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...pawb sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y maes rheoli AD ac sydd eisiau ymestyn eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn datblygu eu gyrfa.

...pawb sydd â diddordeb mewn aelodaeth ar lefel broffesiynol, er mwyn cael hygrededd a chydnabyddiaeth.

...y rhai sy'n gyfrifol am roi polisïau a strategaethau AD ar waith ac sydd angen meithrin dealltwriaeth sefydliadol yn yr amgylchedd a'r cyd-destun busnes ehangach.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Cynnwys y cwrs**

Mae’r rhaglen hon yn adeiladu ar arbenigedd y dysgwyr yn y pynciau AD arbenigol a ddewiswyd ganddynt, gan fynd ati’r un pryd i feithrin eu sgiliau cynllunio, dadansoddi a datrys problemau. Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid iddynt gwblhau chwe modiwl y rhaglen yn llwyddiannus:

Datblygu Ymarfer Proffesiynol
Materion Busnes a Chyd-destun AD
Defnyddio Gwybodaeth mewn AD
Cyfraith Cyflogaeth
Canfod a Chynllunio Talent
Rhoi Hyfforddi a Mentora ar Waith

Bydd cwblhau’r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at Aelodaeth Gyswllt CIPD, sef lefel gyntaf aelodaeth broffesiynol. Hefyd, bydd modd i unigolion cymwys ddefnyddio’r dynodiad ‘Assoc CIPD’ ar ôl eu henwau fel ffordd o arddangos eu cymwysterau a’u hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

**Gofynion Mynediad**

Ni cheir unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**